Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct



# Ymgysylltu, dysgu a gwella

## Adroddiad Effaith yr IOPC

2021/22




| | |
|---|---|
| Croeso | 1 |
| Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud | 6 |
| Ein heffaith yn 2021/22 | 7 |
| Blaenoriaeth 1: Gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu | 8 |
| Blaenoriaeth 2: Gwella plismona drwy nodi a rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n gwaith | 16 |
| Blaenoriaeth 3: Gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu | 24 |
| Blaenoriaeth 4: Bod yn sefydliad effeithiol | 32 |
| Dysgu mwy | 38 |

# Croeso

Croeso i'n Hadroddiad Effaith 2021/22, sy'n rhannu uchafbwyntiau ein gwaith ac, yn bwysicaf oll, y gwahaniaeth rydym wedi'i wneud dros y flwyddyn. Rydym bellach wedi dod i ddiwedd ein strategaeth tair blynedd gyntaf sydd wedi rhoi cyfle i ni bwyso a mesur wrth inni lansio ein cynllun pum mlynedd newydd.

Er gwaethaf tarfu'r pandemig COVID-19, rydym wedi parhau i berfformio'n dda. Mae'n bleser gennyf adrodd bod 90% o'n hymchwiliadau craidd wedi'u cwblhau o fewn 12 mis, gan ragori ar ein targed, a bod 35% o'n hymchwiliadau craidd wedi'u cwblhau o fewn chwe mis.

Mae ein ffocws ar ddysgu a gwella arferion plismona yn rhan bwysig o'n gwaith. Gwnaethom ryw 180 o argymhellion yn 2021/22, gan arwain at well hyfforddiant, gwell polisïau a chanllawiau, a newidiadau i'r ffordd y mae swyddogion yn gwneud eu gwaith. Mae ein hadroddiad mawr a'n hargymhellion ar y defnydd o Taser yn enghraifft dda. Mae ein cylchgrawn Dysgu'r Gwersi yn parhau i rannu gwybodaeth ac arfer gorau, y gwn sy'n cael derbyniad da.

Mae ymwybyddiaeth o'r IOPC yn rhan allweddol o sut rydym yn codi hyder yn atebolrwydd yr heddlu. Er bod rhagor o waith i'w wneud bob amser yn y maes hwn, rydym yn gwneud cynnydd da. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ymwybyddiaeth wedi cynyddu o hanner y cyhoedd wedi clywed am yr IOPC, i bron i ddwy ran o dair.

Fodd bynnag, nid ymwybyddiaeth yw popeth – yn bwysig, beth mae pobl yn ei feddwl ohonom? Er nad ydym yn hunanfodlon rydym yn falch iawn o'r adborth a gawsom, a dyfynnir enghreifftiau yn yr adroddiad hwn.

**Mae ymwybyddiaeth o'r IOPC yn rhan allweddol o sut rydym yn codi hyder yn atebolrwydd yr heddlu.**

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar wneud yr IOPC yn sefydliad amrywiol a chynhwysol i weithio iddo, gydag 81% o staff yn cytuno ein bod yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Mae gwelliannau yn y maes hwn yn ein helpu i adlewyrchu a gwasanaethu'r cyhoedd yn well.






Cynorthwywyd ein cynnydd gan adborth gan aelodau'r cyhoedd, rhanddeiliaid a sefydliadau plismona. Mae'r sgyrsiau hyn wedi ein galluogi i ddeall ac argymell gwelliannau i'r pethau sydd bwysicaf i'r cyhoedd.

Fel bob amser, hoffwn ddiolch i'n cyfarwyddwyr anweithredol am eu gwybodaeth, eu her a'u cymorth adeiladol, ac i'm tîm rheoli a'm staff am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am ein heffaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella plismona yng Nghymru a Lloegr, ac i wella ein hunain fel sefydliad. Edrychaf ymlaen at barhau â'r gwaith hwnnw dros y blynyddoedd i ddod.



**Michael Lockwood**
Cyfarwyddwr Cyffredinol

# Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Ni yw Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Cawsom ein ffurfio er mwyn goruchwylio system gwynion yr heddlu yn Lloegr a Chymru, gan osod y safonau y dylai'r heddlu ymdrin â chwynion yn eu herbyn. Rydym yn ymchwilio i'r materion mwyaf difrifol, gan gynnwys honiadau o lygredd difrifol, ac achosion lle mae rhywun wedi marw neu wedi'i anafu'n ddifrifol yn dilyn cyswllt â'r heddlu. Rydym hefyd yn ystyried rhai mathau o adolygiadau gan bobl sy'n anfodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'u cwyn.

Gwella hyder y cyhoedd mewn plismona drwy sicrhau bod yr heddlu'n atebol am eu gweithredoedd a bod gwersi'n cael eu dysgu. Gan weithio gyda'n partneriaid, defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau, rydym yn defnyddio tystiolaeth o'n gwaith i ddylanwadu ar ac ysgogi newidiadau i blismona, yn enwedig ar faterion y gwyddom eu bod yn effeithio ar hyder y gymuned a'r cyhoedd – er enghraifft, ein ffocws thematig ar wahaniaethu ar sail hil mewn plismona ac ar ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched.

Fel rhan o'n gwaith goruchwylio ehangach, rydym yn darparu canllawiau i helpu'r heddlu i ymdrin â chwynion ar lefel leol. Mae gennym berthnasoedd adeiladol ag adrannau safonau proffesiynol heddluoedd (PSDs) ac rydym yn monitro eu perfformiad ac yn eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad wrth ymdrin â chwynion.


Ynghyd ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) a'r Coleg Plismona rydym yn asesu ac yn ymateb i uwch-gwynion. Gwneir uwch-gwynion gan amrywiaeth o sefydliadau am faterion eang neu systemig a allai effeithio ar hyder y cyhoedd mewn plismona.

Mae gennym hefyd bwerau mewn perthynas â nifer o sefydliadau eraill nad ydynt yn heddluoedd ond sydd â phwerau tebyg i'r heddlu, ac rydym yn ymchwilio i honiadau troseddol yn erbyn comisiynwyr heddlu a throseddu a'u dirprwyon.

Gallwch ddarllen am yr argymhellion a wnawn, crynodebau o'n hymchwiliadau, a'n cyhoeddiadau ar ein gwefan.



# Ein heffaith yn 2021/22



"Roedd [eich adroddiad] yn hynod o fanwl ac **roeddwn i'n teimlo eich bod chi'n deall y sefyllfa gyfan yn llwyr** ... rydych chi wedi mynd i'r afael â phob pwynt yn dda …. Diolch am eich cefnogaeth a chyfathrebu."

Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth



## BLAENORIAETH 1: GWEITHIO GYDAG ERAILL IW ELLAS YSTEMGWYNIONYR HEDDLU

Byddwn yn gweithio i wella pob rhan o'r system gwynion – ein gwaith ein hunain a gwaith a wneir gan eraill – er mwyn iddo ddarparu canlyniadau teg gyson, sy'n seiliedig ar y dystiolaeth, mewn modd amserol.

Rydym yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod cwynion yn cael eu trin mewn ffordd resymol a chymesur. Rydym yn sicrhau bod swyddogion a staff yr heddlu yn cael eu dwyn i gyfrif a'u bod yn dysgu ac yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

# ASTUDIAETH ACHOS
## Rhoi rhwymedïau ar ôl digwyddiad stopio a chwilio

**Fel rheolwr gwaith achos yr IOPC, rwy'n asesu adolygiadau pan fydd pobl yn anhapus â chanlyniad eu cwyn i'r heddlu. Rwy'n adolygu'r camau a gymerodd yr heddlu i ddatrys y gŵyn a chwilio am gyfleoedd iddynt wella'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Gallaf gyfarwyddo'r heddlu i ymchwilio i'r gŵyn eto, nodi meysydd dysgu ac argymell atebion i ddatrys y problemau. Mae enghreifftiau o atebion yn cynnwys ymddiheuriad, dychwelyd eiddo neu arfer myfyriol ar gyfer swyddogion heddlu.**

Mewn un achos, gwnaed cwyn i'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitan (MPS) ar ôl i swyddogion stopio, rhoi gefynnau a chwilio plentyn Du 12 oed yr amheuwyd ei fod yn rhan o grŵp a adroddwyd am 'chwarae' â chyllell fawr. Ni ddaeth y chwiliad o hyd i gyllell nac unrhyw dystiolaeth o drosedd.

Daeth yr MPS i'r casgliad nad oedd y stop yn wahaniaethol, ac nad oedd grym gormodol wedi ei ddefnyddio. Fodd bynnag, canfu nad oedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn dderbyniol a phenderfynodd fynd i'r afael ag ef drwy'r Broses Adolygu Arfer Myfyriol. Yn y broses hon mae swyddogion yn myfyrio, yn dysgu, ac yn unioni pethau lle mae'n angenrheidiol i atal unrhyw broblemau rhag digwydd eto.

Nid oedd y fam na'r plentyn yn hapus â'r canlyniad hwn a gofynnodd i'r IOPC adolygu eu cwyn yn ffurfiol. Roeddent yn arbennig o bryderus fod y plentyn wedi cael ei stopio oherwydd ei fod yn Ddu, a sut y byddai ei wybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio yn dilyn y cyfarfod â'r heddlu.

**Sylweddolais fod swyddog yn rhoi gefynnau i'r plentyn cyn cynnig unrhyw esboniad o'r stop.**


Yn yr IOPC, mae gennym grŵp o staff sy'n darparu cyngor arbenigol ar gwynion yn ymwneud â hil a gwahaniaethu. Tynnodd yr aelodau sylw at rai adnoddau defnyddiol i'w hystyried gan gynnwys adroddiad MPS ar osod gefynnau arferol, argymhellion stopio a chwilio yr IOPC i'r MPS, a'r canllaw poster 'Syniadau ac awgrymiadau i swyddogion wrth ddod i gysylltiad â phobl ifanc' a gynhyrchwyd gan Banel Ieuenctid yr IOPC.

Sylweddolais fod swyddog wedi rhoi'r plentyn mewn gefynnau cyn cynnig unrhyw esboniad o'r stop. Roedd swyddog hefyd yn awgrymu eu bod yn rhoi gefynnau ar unrhyw un y byddent yn ei stopio a'i chwilio fel mater o drefn - sy'n mynd yn groes i'r rheolau stopio a chwilio ac yn gwrth-ddweud yr arfer gorau a nodir yn yr adnoddau yr oeddwn wedi'u darllen.

Ar sail y dystiolaeth hon, roeddwn yn fodlon na wnaeth y swyddog atal y plentyn oherwydd ei fod yn Ddu, ac felly nid oedd eu gweithredoedd yn gwahaniaethu. Fodd bynnag, teimlais y dylai'r plentyn fod wedi cael mwy o gyfle i egluro ei hun, ac y dylai'r swyddog fod wedi cynnig ymddiheuriad pan na ddaethpwyd o hyd i unrhyw beth.

Gwneuthum dri rhwymedi ychwanegol i ddatrys materion y gŵyn a helpu'r MPS i ddysgu o'r digwyddiad. O ganlyniad, gwnaeth yr MPS:

- gynnig ymddiheuriad i'r plentyn
- tawelu meddwl y teulu drwy egluro sut y byddai gwybodaeth bersonol eu plentyn yn cael ei defnyddio
- ehangu Proses Adolygu Arfer Myfyriol y swyddog i'w hystyried y cyfleoedd dysgu a'r adnoddau a adolygwyd



# BLAENORIAETH 1

**Gw eithio gydag eraill i wellas yysystem cwynionyrh eddlu**

## Ein gwaith ar adolygiadau

Mae mwyafrif y cwynion gan y cyhoedd yn cael eu trin gan heddluoedd. Pan fydd rhywun yn anhapus â'r ffordd yr ymdriniodd yr heddlu â'u cwyn, mae ganddynt hawl i adolygiad i'r IOPC neu'r corff plismona lleol.

Mae adolygu cwynion yn agwedd allweddol ar ein gwaith o ddwyn yr heddlu i gyfrif. Pan fyddwn yn cwblhau adolygiad, byddwn yn asesu a oedd canlyniad cwyn yn rhesymol a chymesur. Mae rhesymol a chymesur yn golygu gwneud yr hyn sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, gan ystyried y ffeithiau a'r cyd-destun y mae'r gwyn wedi'i chodi ynddo, o fewn fframwaith deddfwriaeth a chanllawiau.

Y llynedd fe wnaethom gwblhau

**1,161**

**o adolygiadau o'r ffordd yr oedd yr heddlu wedi delio â chwyn**

**1/3**

**o adolygiadau,** fe wnaethom benderfynu nad oedd y canlyniad **yn rhesymol nac yn gymesur.**

## Gweithio gyda heddluoedd i wella'r system gwynion

Ar 1 Chwefror 2020, gwnaed newidiadau cyfreithiol i system gwynion yr heddlu i'w gwneud yn symlach, yn fwy effeithiol ac yn canolbwyntio mwy ar y cwsmer. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd ar gomisiynwyr heddlu a throseddu i oruchwylio ac adolygu cwynion lleol.

Eleni, fe wnaethom weithio'n agos â nhw, ac eraill sydd â chyfrifoldebau tebyg, i ddeall y newidiadau hyn a'u rhoi ar waith. Roedd ein gweithdai rhyngweithiol yn canolbwyntio ar ddeall ymdriniaeth resymol a chymesur, a'r canlyniadau sydd ar gael i'r rhai sy'n ymdrin ag adolygiadau os ydynt yn anghytuno â phenderfyniad ynghylch cwyn. Helpodd hyn i wella ansawdd y ffordd yr ymdrinnir â chwynion a'r gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd.

**"Roedd yn ddefnyddiol iawn cael y cyfle i drafod y pynciau â chi (yr IOPC) a chydweithwyr mewn cyrff plismona lleol. … mae'n ddefnyddiol rhannu arfer gorau a dod â chwestiynau i'r cyfarfod."**

**Adborth a ddarperir gan fynychwr gweithdy**

**"Roedd yn sesiwn dda iawn a chafodd dderbyniad da iawn gan y tîm. Roedd rhai o'r aelodau mwy profiadol yn ei weld yn dda fel rhywbeth i'w atgoffa hefyd."**

**Adborth a ddarparwyd gan fynychwr gweithdy**

Dywedodd pawb a fynychodd eu bod yn debygol o fynychu rhagor o weithdai a dywedodd 83% o'r mynychwyr fod eu dealltwriaeth o ymdriniaeth resymol a chymesur wedi gwella o ganlyniad i fynychu'r gweithdy.

Fe wnaethom hefyd gynnal gweithdai â heddluoedd i gynyddu eu dealltwriaeth o'r diffiniad a'r broses atgyfeirio i'r IOPC ar gyfer achosion marwolaeth ac anafiadau difrifol. Mynychwyd y rhain gan 55 o staff o'r adrannau safonau proffesiynol ar draws wyth rhanbarth.

# BLAENORIAETH 1

**Gweithio ag eraill i wella system cwynion yr heddlu**


## Gwybodaeth am ein hymchwiliadau

Mae'n rhaid i heddluoedd gyfeirio'r achosion mwyaf difrifol atom. Rydym yn penderfynu a oes angen ymchwiliad ac, os felly, pa lefel o gyfranogiad y dylem ei chael.

Bob blwyddyn ers 2018, mae nifer yr atgyfeiriadau a gawn wedi cynyddu. Yn 2021/22 cawsom 5,423 o atgyfeiriadau. Cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau a gawsom lle nodwyd ymosodiad rhywiol neu aflonyddu fel ffactor o ddwy ran o dair, o gymharu â 2020/21. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom gydnabod y pryder cynyddol ymhlith y cyhoedd ynghylch agweddau diwylliannol at blismona ac ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched.

### Ymchwiliadau craidd wedi'u cwblhau o fewn 12 mis

**2021/22**




Yn 2021/22, fe wnaethom ddechrau cyfanswm o 387 o ymchwiliadau annibynnol, gan gynnwys 20 ymchwiliad mawr. (Mae ymchwiliadau mawr yn achosion ar raddfa fawr neu fwy cymhleth fel Operation Linden - ymchwiliad i gamfanteisio'n rhywiol yn hanesyddol ar blant yn Rotherham). Mae'r math o achosion yr ydym yn eu cymryd yn newid, gan ddod yn fwy cymhleth wrth inni ganolbwyntio ar faterion sy'n cael yr effaith fwyaf ar hyder y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys mwy o ymchwiliadau aml-faes, mwy o dystiolaeth ddigidol a'r angen i gefnogi mwy o dystion agored i niwed.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd 421 o ymchwiliadau annibynnol gan gynnwys chwech ymchwiliad mawr. Mae'n hadroddiadau canlyniadau yn darparu tryloywder ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn dilyn ein hymchwiliadau ac maent i'w gweld ar ein gwefan.

Rhagorwyd ar ein targed i gwblhau 85% o ymchwiliadau annibynnol craidd o fewn 12 mis, gan gyflawni 90%. Cyflawnwyd ein targed hefyd i gwblhau 35% o'n hymchwiliadau craidd o fewn chwe mis.

Drwy gydol 2021/22, fe wnaethom barhau i ymchwilio i achosion ar themâu sy'n peri pryder i'r cyhoedd a'r heddlu. Ein meysydd thematig presennol yw cam-drin domestig, digwyddiadau traffig ffyrdd, iechyd meddwl, gwahaniaethu ar sail hil a cham-drin pŵer at ddiben rhywiol. Y llynedd fe wnaethom gwblhau 85 o ymchwiliadau thematig, â'r mwyafrif wedi'u cwblhau o fewn 12 mis.



**“Rôl bwysig iawn i’r IOPC yw pethau fel cyhoeddi'r adrodd Taser yn ddiweddar, felly nid yn unig edrych ar yr achosion unigol hynny - ond hefyd dod ag ef at ei gilydd ac edrych yn fwy thematig hefyd.”**

**Adborth gan randdeiliad**

## BLAENORIAETH: GWELLA PLISMONA TRWY NODI A RHANNU'R HYN A DDYSGWYD O'N GWAITH

Byddwn yn canolbwyntio ein gwaith ar feysydd sy’n peri pryder i’r cyhoedd a’r heddlu, ac yn gweithio gyda phartneriaid i rannu ein dysgu i wella plismona ac amddiffyn y cyhoedd rhag niwed.

Gall ein hargymhellion arwain at newidiadau ar lefel leol neu genedlaethol i bolisi, hyfforddiant, offer, systemau ac arferion plismona. Mae newidiadau a wneir mewn ymateb i'n hargymhellion yn y pen draw yn gwella plismona i bawb ac yn magu hyder.

# ASTUDIAETH ACHOS

## Newidiadau cenedlaethol i hyfforddiant i swyddogion heddlu ar ddefnyddio Taser ym mhresenoldeb plentyn

**Fe wnaethom ymchwilio i naw cwyn gan ddyn y defnyddiwd taser yn ei erbyn dro ar ôl tro yn ystod ei arestiad, tra bod plentyn gydag ef.**

Fe wnaethom sefydlu grŵp cyfeirio cymunedol i ddeall effaith yr achos hwn. Trwy ein trafodaethau, clywsom bryderon ynghylch y defnydd anghymesur o Taser ar ddynion Du a nodwyd gwahaniaeth rhwng rhai disgwyliadau ynghylch pryd y gellir defnyddio Taser, a sut y mae canllawiau cenedlaethol yn caniatáu iddo gael ei ddefnyddio.

Gwnaethom archwilio gweithredoedd swyddogion yn ystod ac ar ôl arestio'r dyn, eu defnydd o rym, ac a gafodd y dyn ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei fod yn Ddu.

Daethom i'r casgliad bod swyddogion wedi gweithredu yn unol â'r polisïau, canllawiau a gweithdrefnau perthnasol. Ni chanfuom ychwaith unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod ethnigrwydd yr achwynydd yn ffactor yn y penderfyniad i ddefnyddio grym yn ei erbyn. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi sawl maes dysgu ar gyfer Heddlu Manceinion Fwyaf (GMP), yn ogystal â newidiadau sydd eu hangen ar lefel genedlaethol.

O ganlyniad i'n hargymhelliad, diweddarodd y Coleg Plismona ei ganllawiau cenedlaethol ar ddefnyddio Taser. Bellach mae'n ofynnol i bob swyddog ystyried goblygiadau posibl defnydd Taser ym mhresenoldeb plentyn.

Datblygodd GMP Weithdrefn Weithredu Safonol Taser newydd, sy'n cynnwys canllawiau ynghylch pryd y gallai fod yn briodol defnyddio Taser mewn amgylchedd lle mae ffactorau risg.

**O ganlyniad i'n hargymhelliad, diweddarodd y Coleg Plismona ei ganllawiau cenedlaethol ar ddefnyddio Taser.**

Derbyniodd GMP hefyd ein hargymhelliad i sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol o'u hiaith wrth gyfiawnhau eu defnydd o rym. Ni ddylent gyfeirio at ystrydebau cyffredin a allai wneud i'w gweithredoedd ymddangos yn wahaniaethol.

Fe wnaethom rannu a thrafod y canlyniad â'r grŵp cyfeirio cymunedol fel ei fod yn deall sut y daethom i'n penderfyniad.



# BLAENORIAETH 2

**Gw ellapli smonatrwy adnabod a rhannudy sguo'nga ith**

## Argymhellion dysgu sefydliadol

Rydym yn gwneud argymhellion dysgu i'r heddlu a sefydliadau eraill yn dilyn ein hymchwiliadau, adolygiadau a gwaith thematig.

Mae ein hargymhellion yn helpu i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu, a bod arferion plismona yn gwella er mwyn atal problemau rhag digwydd eto. Rydym yn trafod argymhellion dysgu posibl â'n rhanddeiliaid a'n derbynwyr arfaethedig, fel bod ein hargymhellion yn berthnasol, yn gywir ac yn cael yr effaith fwyaf.

Mae'n ofynnol i dderbynwyr ddarparu ymateb i rai argymhellion o fewn 56 diwrnod (os cânt eu cyhoeddi o dan Baragraff 28A o Atodlen 3 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002). O'r argymhellion hyn lle cawsom ymateb, derbyniwyd 92% o argymhellion lleol a derbyniwyd 96% o argymhellion cenedlaethol.

**Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom tua**

**180**

**o argymhellion â'r nod o wella plismona,** gan gynnwys newidiadau i **bolisi, canllawiau a** hyfforddiant.

## Rhannu'r hyn a ddysgir er mwyn gwella arferion yr heddlu

Mae ein hymchwil yn dangos yn gyson bod y cyhoedd sy'n gwneud cwyn am yr heddlu am iddynt ddysgu oddi wrthi.

Rydym yn falch o weld bod ein rhanddeiliaid yn cefnogi'n gryf ein blaenoriaeth i nodi a rhannu dysgu, a'u bod yn gadarnhaol ynghylch ein deunyddiau dysgu cyhoeddedig, sydd i gyd i'w gweld ar ein gwefan.

Ers 2007, rydym wedi cyhoeddi cylchgronau Learning the Lessons i rannu'r hyn a ddysgwyd o'n hymchwiliadau a'n hadolygiadau. Mae pob rhifyn yn cynnwys astudiaethau achos a chwestiynau adfyfyriol i lunwyr polisi, swyddogion, a staff yr heddlu i ystyried yn rhagweithiol yr hyn y gallent ei wneud i atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd yn eu heddlu. Mae'r cylchgronau hefyd yn cynnwys cyfraniadau gan sefydliadau allanol, sy'n helpu i amlygu gwaith sy'n digwydd yn genedlaethol i gefnogi ein gwaith dysgu.

Y llynedd, fe wnaethom gyhoeddi Rhifyn 39 o'r cylchgrawn, a oedd yn canolbwyntio ar gam-drin plant yn rhywiol. Roedd y themâu'n cynnwys methiant i ddatblygu ymchwiliadau, a gwybodaeth am ddelweddau anweddus o blant.

Fe wnaethom rannu'r cylchgrawn â dros 1,500 o'n rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai sy'n delio â chwynion yr heddlu ac arweinwyr dysgu a datblygu. Fe wnaethom hefyd gynnal dwy sesiwn ddysgu i staff glywed gan y cyfranwyr allanol i'r cylchgrawn a chynyddu eu dealltwriaeth o'r materion dan sylw.

> **"Daeth â ni i gyd at ein gilydd yn fewnol â'n rhanddeiliaid plismona i feddwl am yr agenda a rennir – gan werthfawrogi'r heriau a'r gwahanol safbwyntiau a sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd…Da iawn"**
>
> **Rheolwr Polisi ac Ymgysylltu, IOPC**

# ASTUDIAETH ACHOS

## Canllawiau cenedlaethol ar gyflwyno neges marwolaeth

**O ganlyniad i'n hargymhelliad dysgu, bydd y Coleg Plismona yn datblygu cyngor i swyddogion heddlu ar gyfleu neges marwolaeth. Bydd hyn yn cynnwys ystyried amgylchiadau pan nad yw'r unigolyn sy'n derbyn y neges yn ei gartref ei hun.**

Roedd hyn yn dilyn ymchwiliad gan yr IOPC lle bu farw menyw yng nghyfeiriad cartref ei chyn bartner. Cafodd ei theulu wybod am ei marwolaeth yn y fan a’r lle, tra yn eu car gydag aelod arall o’r teulu ar ddyfais ddi-dwylo car. Yna caniatawyd i'r teulu yrru adref heb ystyriaethau ar gyfer cymorth lles posibl. Er bod swyddogion o'r heddlu wedi dilyn mewn cerbyd ar wahân mae'n ymddangos na chynhaliwyd asesiad risg deinamig, o ystyried yr amgylchiadau pan hysbyswyd y teulu o'i marwolaeth.

Bydd y Coleg Plismona hefyd yn adolygu ei hyfforddiant ar gyflwyno neges marwolaeth i sicrhau bod yr angen i ystyried lles ac iechyd a diogelwch yn cael ei gynnwys.






# BLAENORIAETH 2

## Gwella plismona trwy nodi a rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n gwaith

### Dysgu thematig ar Taser

Y llynedd fe wnaethom adolygu 101 o ymchwiliadau IOPC annibynnol a oedd yn cynnwys defnydd Taser - dros gyfnod o bum mlynedd rhwng 2015 a 2020. Gwnaethom ystyried data a llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes a gwrando ar y safbwyntiau a'r pryderon a fynegwyd gan grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid.

Mewn ymateb i'r materion a nodwyd gennym, gwnaethom 17 o argymhellion dysgu i sawl sefydliad cenedlaethol. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar hyfforddiant ac arweiniad, craffu a monitro defnydd Taser, data ac ymchwil ac ymgysylltiad cymunedol.




Galwasom hefyd am fwy o graffu cenedlaethol ar ddefnydd Taser gan yr heddlu ar blant. Gyda chefnogaeth Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, fe wnaethom ysgrifennu at bob heddlu, yn eu hannog i gyfeirio materion atom yn ymwneud â defnyddio Taser ar blentyn. Rydym am gael gwell gwybodaeth am amgylchiadau pob digwyddiad, a pham y teimlai swyddog heddlu fod angen ei ddefnyddio.

Byddwn yn parhau i fonitro effaith y gwaith hwn i gynyddu hyder y cyhoedd yn nefnydd yr heddlu o Taser.



"Mae llawer o bobl dda, pobl angerddol sy'n barod i roi'r amser i mewn i wneud gwahaniaeth... **Maen nhw'n wirioneddol angerddol i weithio gyda phobl ifanc ac yn poeni am yr hyn sydd gennym i'w ddweud a gweithredu ar yr hyn rydym yn ei ddweud."**

Adborth gan aelod o'r Panel Ieuenctid

## BLAENORIAETH - GWELLA HYDER YN ATEBOLRWYDD YR HEDDLU

Byddwn yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid a chymunedau, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd â'r hyder lleiaf mewn plismona, fel eu bod yn deall eu hawl i gwyno ac yn disgwyl triniaeth deg a chyfiawn mewn ymateb i gwynion a digwyddiadau difrifol.

Rydym yn gwrando ar ein rhanddeiliaid ac yn canolbwyntio ein gwaith ar ymateb i'r pryderon sydd bwysicaf i'n defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

# ASTUDIAETH ACHOS

## Swyddog yn cael ei garcharu am erlid merched at ddibenion rhywiol

**Cwblhawyd ymchwiliad annibynnol i ymddygiad heddwas a oedd wedi erlid chwe menyw agored i niwed y cyfarfu â hwy drwy ei ddyletswyddau. Cafodd gysylltiad rhywiol â thair a cheisiodd sefydlu cysylltiad rhywiol â'r lleill.**

Roedd y swyddog wedi defnyddio systemau cyfrifiadurol yr heddlu at ddibenion nad oedd yn ymwneud â phlismona i gael gwybodaeth am fenywod. Gofynnodd hefyd i fenywod i gael rhyw yn eu cartrefi tra bod eu plant yn yr eiddo.


Roedd y swyddog wedi anfon cannoedd o negeseuon testun at fenywod lluosog tra roedd ar ddyletswydd ac wedi anfon negeseuon testun anweddus a rhywiol eglur at fenywod. Gofynnodd hefyd iddynt anfon lluniau personol ohonynt eu hunain.

Daethom i'r casgliad bod gan y swyddog achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol oherwydd bod y dystiolaeth yn awgrymu bod ymddygiad y swyddog yn fwriadol, wedi'i dargedu ac wedi'i gynllunio. Cafodd y cyn swyddog ei garcharu am dros dair blynedd a'i roi ar restr waharddedig y Coleg Plismona i atal cyflogaeth â'r heddlu yn y dyfodol.

Yn dilyn ein hymchwiliad, diweddarodd yr heddlu ei hyfforddiant ar gamddefnyddio pŵer at ddiben rhywiol a diwygio ei bolisïau cyfryngau cymdeithasol ar ddefnyddio WhatsApp.

**"Hoffwn ddiolch i'r IOPC am gysylltu â mi ac am eu cymorth anhygoel … Heb yr alwad ffôn ganddynt byddwn wedi cario'r teimladau hyn am byth. Sylweddolaf yn awr nad fi sydd ar fai; Roeddwn i'n ddioddefwr ac rwy'n gobeithio bod cyfiawnder ar ddiwedd yr achos hwn."**

**Adborth gan dyst**



# BLAENORIAETH 3

## Gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu

### Cam-drin pŵer at ddiben rhywiol

Cam-drin pŵer at ddiben rhywiol yw'r math unigol mwyaf o lygredd heddlu y mae'r IOPC yn delio ag ef. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi gweld nifer yr ymholiadau gan y wasg am y maes pwnc hwn wedi treblu. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffocws cynyddol o ran pryder y cyhoedd a'r gwaith sy'n digwydd ar draws plismona i fynd i'r afael â'r broblem.

Mae'r cyhoedd yn disgwyl i ni fod yn agored ac yn dryloyw yn ein cyfathrebiadau am ein gwaith. Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi datganiad i'r wasg mewn ymateb i bryderon cynyddol y cyhoedd am heddlu sy'n cam-drin eu safle at ddiben rhywiol. Arweiniodd hyn at ohebu sylweddol - ar draws radio, teledu a chyfryngau print. Roedd hyn yn cynnwys 323 o erthyglau newyddion ar-lein â chyrhaeddiad cyfunol o 500 miliwn o ddarllenwyr.

Yn ystod y mis hwn, derbyniodd ein tîm Cyfryngau ddwywaith cymaint o ymholiadau am gamddefnyddio pŵer nac unrhyw fis unigol arall yn ystod y tair blynedd diwethaf.

### Meithrin hyder trwy dryloywder

Y llynedd cyhoeddwyd ein hadroddiad dysgu i'r naw ymchwiliad cysylltiedig a elwir yn Ymgyrch Hotton, a nododd dystiolaeth o fwlio a gwahaniaethu gan swyddogion sydd wedi'u lleoli'n bennaf yng Ngorsaf Heddlu Charing Cross.

Roedd ein hadroddiad dysgu yn cynnwys enghreifftiau o'r negeseuon a rannwyd gan rai swyddogion. Er ein bod yn cydnabod y gallai hyn dramgwyddo a chynhyrfu'r cyhoedd, roeddem yn teimlo bod angen hyrwyddo tryloywder a darparu cyd-destun ar gyfer ein hargymhellion.

Arweiniodd yr adroddiad at alwadau eang i Wasanaeth Heddlu Llundain fynd i'r afael â'r materion diwylliannol a nodwyd. Mae ein hadroddiad wedi'i ddisgrifio gan amrywiol randdeiliaid fel trobwynt ym maes plismona.



> **"Mae'r adroddiad yn wirioneddol syfrdanol. Roedd y rhywiaethdidaro a chasineb at fenywod yn agoriad llygad, hyd yn oed i mi. A'r gweddill – hiliaeth, bwlio ac ati. Roedd yr adroddiad wedi'i ysgrifennu'n dda, yn drawiadol ac roedd y dyfyniadau'n siarad cyfrolau. Diolch i... bawb yn yr IOPC a gymerodd ran - am wneud y gwaith thematig hynod bwysig hwn tuag at newid"**
>
> **Rhanddeiliad**

Ar y diwrnod y'i cyhoeddwyd roedd yn stori arweiniol i'r BBC, yn ogystal â'r cyfryngau cenedlaethol a rhanbarthol. Gwnaethom hefyd gynnal cyfweliadau darlledu ar sawl platfform BBC a siarad â radio LBC.

Yn ystod yr wythnos ar ôl cyhoeddi, cafodd Ymgyrch Hotton effaith ar unwaith. Roedd 'Charing Cross' yn destun tuedd ar Twitter ac roedd termau allweddol yn ymwneud â'r adroddiad yn ymddangos mewn chwiliadau Google, gan ysgogi trafodaeth ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Yn ystod y ddau fis dilynol, roedd llawer o ddiddordeb yn ein hadroddiad o hyd. Roedd tua 1,700 o bobl wedi darllen ein datganiadau i'r cyfryngau Operation Hotton a/neu ein hadroddiad dysgu ar ein gwefan.

Ers ei gyhoeddi bu bron i 500 o straeon newyddion a blogiau am Ymgyrch Hotton ledled y byd. Mae wedi cael sylw amlwg yn yr Unol Daleithiau ac mewn gwledydd gan gynnwys India, yr Eidal a Seland Newydd.

Derbyniodd Gwasanaeth Heddlu Llundain ein hargymhellion yn llawn a chytunwyd i ymrwymo'n gyhoeddus i sefyllfa o ddim goddefgarwch ar hiliaeth, casineb at fenywod, bwlio ac aflonyddu, yn ogystal â bod yn sefydliad gwrth-hiliaeth. Cafodd ein hargymhellion eu hystyried hefyd fel rhan o Gynllun Gweithredu Hil Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu.

# BLAENORIAETH 3
## Gwella hyderyn atebolrwydd yr heddlu

### Gweithio gyda rhanddeiliaid

Yn 2021/22, fe wnaethom gynnal tua 250 o sesiynau ymgysylltu ag ystod amrywiol o randdeiliaid ledled Cymru a Lloegr. Helpodd hyn ni i ddeall y cymunedau amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu, a'r materion ym maes plismona sydd â'r mwyaf o bryderon yn eu cylch.

Yn ein harolwg diweddaraf, roedd ein rhanddeiliaid yn canmol sut y gwnaethom ymgysylltu â nhw a sut y maent yn gwerthfawrogi'r ymdrechion yr ydym wedi'u gwneud i fod yn fwy agored, hygyrch a rhagweithiol.

> **"Rydw i bob amser wedi canfod unrhyw un rydw i wedi rhyngweithio ag ef yn wirioneddol broffesiynol a thryloyw… Gallwn ni gael y ddeialog ddwy ffordd honno o un sefydliad i'r llall"**
>
> **Rhanddeiliad**

Roedd gwahaniaethu ar sail hil a stopio a chwilio yn cael eu codi'n rheolaidd fel meysydd sy'n peri pryder, yn enwedig ynghylch sut mae pwerau stopio a chwilio yn cael eu defnyddio, a'r effaith y gall hyn ei chael ar unigolion.

> **"Mae ymgysylltu da iawn. Mae'n broffesiynol, mae'n gydweithredol, mae'n agored ac yn deg"**
>
> **Rhanddeiliad plismona**

Roedd ein trafodaethau â rhanddeiliaid yn hanfodol i ddatblygu ein hadroddiad dysgu stopio a chwilio cenedlaethol. Gwnaethom wrando ar farn academyddion, aelodau ein Panel Ieuenctid, arbenigwyr plismona, comisiynwyr heddlu a throseddu, HMICFRS, y Gymdeithas Plismona Du Cenedlaethol a grwpiau craffu a chynghori cymunedol, i sicrhau bod ein hadroddiad yn cael yr effaith fwyaf.

Byddwn yn parhau i fonitro effaith ein hargymhellion. Rydym yn croesawu ystyriaeth o'n hargymhellion fel rhan o Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Coleg Plismona.

Gwnaeth ein **hadroddiad dysgu Stopio a Chwilio**

**18** **o argymhellion dysgu** i sefydliadau cenedlaethol



### Gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Mae ein Panel Ieuenctid yn cynnwys tua 40 o bobl ifanc 16-25 oed, sy'n ein helpu i ddeall pryderon pobl ifanc yn well a gwella eu hyder isel mewn plismona a system gwynion yr heddlu.

Y llynedd cyfarfu'r Panel â dros 125 o bobl ifanc i drafod y materion sy'n effeithio ar ganfyddiadau pobl ifanc a lefelau ymddiriedaeth yn yr heddlu. Mae ail adroddiad y Panel yn nodi nifer o argymhellion yr ydym yn gweithio â'r Panel i'w cyflawni.

Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys:

- datblygu arolwg cenedlaethol o bobl ifanc i gasglu barn ar blismona yn flynyddol
- cynyddu gwybodaeth swyddogion am y cymunedau y maent yn eu plismona ac archwilio gwelliannau i hyfforddiant

> **"Gall y ffordd yr ydym yn siarad â phlant wneud gwahaniaeth enfawr. Dydych chi byth yn gwybod pa broblemau y gallent fod yn mynd drwyddynt a bydd y ffordd yr ydym yn portreadu ein hunain a'n dulliau cyfathrebu yn effeithio ar y ffordd y maent yn ymateb i ni."**
>
> **Rhanddeiliad plismona a fynychodd gyfarfod â'r Panel Ieuenctid**

Roedd y Panel Ieuenctid hefyd yn cefnogi creu cyfrif Instagram IOPC i gynyddu amlygrwydd ein gwaith a gwella hygyrchedd i bobl ifanc i wybodaeth am y system gwynion. Gyda'n gilydd, fe wnaethom lansio'r ymgyrch barhaus ar gyfryngau cymdeithasol 'Gwybod eich Hawliau', a ddatblygwyd i hysbysu pobl ifanc am eu hawliau mewn meysydd, megis stopio a chwilio.

Cyrhaeddodd ymgyrch **Gwybod Eich Hawliau** y Panel Ieuenctid at bobl ifanc drwy

**5,423** **gyfrifon**

a derbyniwyd

**7,745** **o argraffiadau**



"Mae hyn wedi bod yn gyfle anhygoel, yn enwedig am rywun hebbrofiad mewn sector proffesiynnol,, felly **diolch am drefnu hyn igynnig cyfleoedd gwych ti bobl fel fi .**"

Rhaglen Darpar Weithwyr Proffesiynol IOPC

## BLAENORIAETH 4 - BOD YN SEFYDLIAD EFFEITHIOL AC EFFEITHLON

Byddwn yn denu ac yn cadw gweithlu hynod fedrus ac amrywiol ac yn darparu amgylchedd gwaith da iddynt tra'n gwella'n barhaus i ddarparu gwerth am arian.

Ein huchelgais yw bod yn lle gwych i weithio ynddo. Rydym yn ymdrechu i wella amrywiaeth ein gweithlu a chynrychioli'r cymunedau a wasanaethwn yn well.

# BLAENORIAETH 4
**Bod yn sefydliad effeithiol aceffeithlon**

## Bod yn sefydliad cynhwysol

Fel sefydliad cynhwysol rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth ym mhopeth a wnawn.

Y llynedd gwnaethom gynnydd sylweddol ar fentrau sy'n adeiladu diwylliant gweithle sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi gwahaniaeth, gan wneud yr IOPC yn lle gwell fyth i weithio ynddo. Mae'r amrywiaeth hwn o gefndiroedd a phrofiad yn ein helpu i weithio'n well i gymunedau a chydymdeimlo â nhw.

## Rhaglen fentora o chwith

Roedd y fenter hon yn canolbwyntio ar fentoriaid o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ac yn ein cynorthwyo i werthfawrogi profiadau ac ymateb i anghenion ein staff a defnyddwyr gwasanaeth. Mae wedi helpu uwch arweinwyr i ddeall a datrys rhai o'r rhwystrau personol a threfniadol y mae cydweithwyr yn eu hwynebu a chael mwy o ymwybyddiaeth o effaith eu penderfyniadau a'r arferion gwaith y maent yn eu goruchwylio.

**"Fe wnaethon ni greu man diogel i alluogi'r ddau barti i fod yn ddygn ac yn agored wrth ddysgu ac ymgymryd â her barchus. Roeddem yn gallu datblygu meddylfryd twf a myfyrio ar ymddygiadau a ddysgwyd sy'n atgyfnerthu agweddau cymdeithasol negyddol, yn helpu i ddileu unrhyw anwybodaeth [a] dileu unrhyw ragfarn"**

**Aelod o staff a gymerodd ran yn y rhaglen**

## Mae rhwydwaith Pride yn ein helpu i ddeall effaith ein gwaith

Mae ein rhwydweithiau staff yn chwarae rhan allweddol wrth ddeall effaith ein gwaith ar gymuned benodol neu bobl sydd ag  agweddau gwarchodedig.

Mae ein rhwydwaith staff Pride wedi darparu cymorth sylweddol i ymchwiliad proffil uchel sydd wedi effeithio ar y gymuned LHDTC+ a'r cyhoedd yn ehangach. Roedd hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth i'r tîm ymchwilio am groestoriad rhwng LHDTC+ a rhyw neu rywedd, a'u harwain ar ddefnyddio iaith gynhwysol a sensitif yn eu hadroddiadau. Mynychodd aelodau rhwydwaith staff ddau gyfarfod cymunedol hefyd i helpu i feithrin cyfathrebu a pherthynas well â phobl leol yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad.

Er gwaethaf y cyhoeddusrwydd eang yn y cyfryngau, teimlai'r rhwydwaith mai cyfyngedig oedd y cyfathrebu mewnol ynghylch yr effaith a gafodd yr achos ar y gymuned LHDTC+. Cynhaliwyd fforwm lle gallai aelodau'r rhwydwaith fynegi eu pryderon a chael eu clywed gan uwch arweinwyr a staff eraill.

Roedd uwch arweinwyr yn cydnabod pryderon staff ac yn cydnabod y gallai'r sefydliad wneud mwy i ddarparu cymorth i staff a gwella ei gyfathrebu mewnol. Fe wnaethant rannu blogbost yn hyrwyddo cynhwysiant LHDTC+ a gwahodd staff i rannu eu rhagenwau yn eu llofnod e-bost.

Yn dilyn y cyfarfod hwn, gofynnodd arweinydd rhwydwaith LHDTC+ ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan i gwrdd â'n rhwydwaith Pride. Roedd y cyfarfod hwn yn gadarnhaol iawn, ac roeddent yn awyddus i ddeall mwy am ein prosiect rhagenwau i gynyddu arweiniad ar hunaniaeth rhywedd a sut y gallent roi hyn ar waith. Rydym wedi rhoi cyngor i'r MPS ar sut y gall wella ei hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## Gwobr Arian Stonewall 2022

Dyfarnwyd Gwobr Arian y Cyflogwr i ni ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall ar gyfer 2022. Mae hyn yn gyflawniad gwych ac yn gydnabyddiaeth o'n hymdrechion i ddod yn gyflogwr LHDTC+.

Adroddiad Effaith yr IOPC 2021/22 37

# BLAENORIAETH 4

## Bod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon





### Rhaglen Darpar Weithwyr Proffesiynol

Mae ein Rhaglen Darpar Weithwyr Proffesiynol yn lleoliad pedair wythnos â thâl yn yr IOPC, a'i nod yw darparu cyfleoedd i'r rheini o gefndiroedd ymylol ac amrywiol, sydd â diddordeb mewn gyrfa yn yr IOPC neu'r sector cyhoeddus ehangach.

Roedd pob ymgeisydd yn teimlo'n fwy hyderus ynglŷn â gwneud cais am rolau IOPC neu sector cyhoeddus yn y dyfodol. Rydym yn falch bod chwech o'r gweithwyr proffesiynol a gwblhaodd y rhaglen wedi sicrhau rolau o fewn yr IOPC.

Cawsom **119** o geisiadau am ddeuddeg lle ar y rhaglen i ddarpar weithwyr proffesiynol



gyda **57%** o ymgeiswyr o gefndir lleiafrifoedd ethnig.

# Darganfod mwy

Rydym yn rhannu ein holl gyhoeddiadau a chyfathrebiadau trwy ein gwefan.

- Mae ein Hadroddiad Blynyddolyn disgrifio ein cynnydd tuag at gyflawni'r gwaith yr ymrwymwyd iddo yn ein Cynllun Busnes. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ein cyfrifon perfformiad archwiliedig.
- Mae ein hadroddiadau canlyniadau yn darparu tryloywder ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn dilyn ein hymchwiliadau ac maent i'w gweld ar ein gwefan.
- Rydym yn cynhyrchu amrywiaeth o gyhoeddiadau sy'n rhannu'r hyn a ddysgir o'n gwaith. Rydym hefyd yn cyhoeddi crynodebau o ymchwiliadau ac argymhellion dysgu.
- Mae ein Panel Ieuenctid wedi estyn allan i bobl ifanc i ddeall eu barn ac wedi cyhoeddi ymchwil newydd.



Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

**I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:**


**www.policeconduct.gov.uk**

Dilynwch ni ar Twitter: **@policeconduct**

E-bostiwch ni yn: **enquiries@policeconduct.gov.uk**

Galwch ni ar: **0300 020 0096**

Negeseuwch: **18001 0207 166 3000**

Ysgrifennwch atom yn:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu**

**PO Box 473**

**Sale M33 0BW**


Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg hefyd.


**© IOPC 2022**

OGL Mae hwn wedi cael ei drwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd parti. Rhaid cael awdurdodiad i ddefnyddio mesuryddion o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE®
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID®
CSE